**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
a
Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Dyddiad | Date: 14 Gorffennaf 2022

Pwnc | Subject: Paratoadau ar gyfer Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA

Annwyl Mark a Vaughan,

Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog ar 17 Mehefin i ofyn iddo nodi'r gwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y ffaith bod tîm pêl-droed dynion Cymru wedi ennill ei le yn Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar.

Ers y llythyr hwnnw, bu'r Prif Weinidog mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 23 Mehefin i drafod y pwnc hwn ymhellach. Wrth ateb fy nghwestiwn ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fanteisio i'r eithaf ar fudd economaidd a diwylliannol y cyfle hwn, dywedodd ei fod yn datblygu dull tebyg i'r hyn a gymerwyd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan yn 2019. Roedd hyn yn cynnwys mynd â dirprwyaeth fasnach i Tokyo, a ddisgrifiwyd fel:

> 'an approach that marshals resources across the whole of the Welsh Government, but then seeks to work with key partners.'

Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor ei fod wedi cynnal cyfarfod o uwch swyddogion ar draws y Llywodraeth i gasglu holl gyfraniadau gwahanol agweddau ar waith Llywodraeth Cymru, ac roeddem yn croesawu hyn. Sylwaf iddo ddweud hefyd ei fod yn bwriadu Cadeirio cyfarfod o Weinidogion a phenodi Gweinidog i arwain y gweithgaredd o ddydd i ddydd i baratoi at Gwpan y Byd ac yna i sicrhau ein bod yn gwneud hynny gyda'n partneriaid.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, drwy ohebiaeth e-bost, gofynnais am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r cyfarfodydd hyn. Dywedodd swyddfa breifat y Prif Weinidog wrthym:

> 'The meetings that are currently taking place are to discuss potential options, rather than agree specific work.
>
> It may be better for the FM to provide an update on the World Cup in September when plans have firmed up more and further information is available.'

Ystyriwyd hyn yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf a chytunwyd bod angen blaenoriaethu'r gwaith hwn ar frys os yw Llywodraeth Cymru am fanteisio ar y llwyfan byd-eang a ddarperir gan Rowndiau Terfynol Cwpan

y Byd FIFA. Credwn y byddai hyn yn golygu cytuno ar amcanion a blaenoriaethau penodol cyn diwedd mis Gorffennaf a gweithredu'r camau angenrheidiol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod Cymru'n llwyr wireddu potensial y cyfleoedd a ddarperir drwy weithredu fel Tîm Cymru. Ni ddylid disgwyl i Gymdeithas Bêl-droed Cymru chwarae'r rôl hon ar ei phen ei hun.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau ei bod yn manteisio i'r eithaf ar y potensial hwn. Mae hyn yn cynnwys penodi arbenigwyr a all weithio gyda gweision sifil a phartneriaid profiadol, gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, i ganolbwyntio ar gyflawni'r prosiect pwysig hwn.

Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi'i roi ar waith, gan gynnwys yr adnoddau a ddyrannwyd yn ogystal ag unrhyw drafodaethau a deialog sydd wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU a'r Cyngor Prydeinig. Oherwydd brys y cyfleoedd hyn, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn diwedd y mis hwn. Yr ydym yn ofni, oni bai bod brys y gwaith hwn yn cynyddu'n sylweddol, y gallai'r llywodraeth golli'r cyfle i hyrwyddo ein diwylliant, a denu buddsoddiad a diddordeb yn ein heconomi, yn ogystal â bod o fudd i bobl Cymru, ar y llwyfan amlycaf ers cenhedlaeth.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol